Datganiad i'r wasg — 15 Hydref 2025

‘Storm berffaith’ i Gymru oni bai bod gweithredu ar newid hinsawdd yn cynnwys cymunedau

— adroddiad newydd CSCC, sydd wedi'i wreiddio mewn cymunedau go iawn yng Nghymru, yn dangos sut y gall lleisiau amrywiol helpu i lunio dyfodol gwydn a theg i Gymru

Heddiw (15 Hydref) mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC) wedi lansio ei adroddiad diweddaraf: *Storm Berffaith — A yw Cymru'n gwneud digon i gydlynu gweithredu ac ennyn diddordeb cymunedau i addasu ein seilwaith i hinsawdd sy’n newid?*

Mae'r adroddiad yn rhybuddio os na fydd gweithredu ar frys i baratoi ar gyfer effeithiau gwaethygu newid yn yr hinsawdd, mae Cymru mewn perygl o gael ei gadael yn beryglus o ddiamddiffyn — gyda mwy o lifogydd difrifol, gwres digynsail, ac erydiad arfordirol yn ystod y degawdau i ddod.

Fodd bynnag, mae gan Gymru gyfle i arwain o ran gwydnwch hinsawdd os yw cymunedau, llywodraeth a darparwyr seilwaith yn gweithredu gyda'i gilydd.

Mae CSCC yn nodi, er bod ffocws gwleidyddol cryf ar leihau allyriadau, mae llawer llai o bwyslais ar ffactorau fel seilwaith sy'n heneiddio, cynllunio anghyson, cylchoedd cyllido tymor byr a chydlynu gwan - gan adael cymunedau Cymru a gwasanaethau hanfodol mewn perygl.

Wedi'i wreiddio mewn cymunedau go iawn, cafodd yr adroddiad ei lunio gan ymgysylltu ledled Cymru — a arweiniwyd mewn partneriaeth â'r Cyngor Cymuned yng Ngheredigion, Partneriaeth Fairbourne yng Ngwynedd, grwpiau cymunedol amrywiol ym Mhowys a phrosiect peilot blaenllaw yn Grangetown, Caerdydd — un o gymdogaethau ethnig mwyaf amrywiol y wlad.

Dros gyfnod o saith mis, bu CSCC yn gweithio gyda'r School of International Futures (SOIF) ynghyd â’u partneriaid lleol, SEF Cymru, Green Soul, a Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange, i brofi dulliau dyfodol cyfranogol — gan gryfhau lleisiau pobl mewn penderfyniadau am wydnwch hinsawdd.

Cafodd trigolion lleol o bob oed a chefndir gyfrannu at sgyrsiau creadigol a strwythuredig, a hynny trwy farddoniaeth a chwarae rôl, trwy fynd ar deithiau cerdded a gwneud ymarferion creu gweledigaeth, i drafod sut y bydd y penderfyniadau seilwaith a wnawn heddiw yn siapio cenedlaethau'r dyfodol.

Dangosodd y broses fod yn rhaid i degwch, cyd-ddylunio, a chynhwysiant fod yn ganolog i gynllunio addasu, a bod Cymru angen hwb a rennir — fel Academi'r Dyfodol — er mwyn ehangu'r dulliau hyn ledled y wlad.

Wedi'i osod yn erbyn y cefndir hwn, mae'r adroddiad yn amlinellu 12 argymhelliad i'w hystyried ar unwaith gan Lywodraeth Cymru — er mwyn cryfhau gwydnwch, ymgorffori addasu i'r hinsawdd ar draws pob sector, a sicrhau bod cymunedau'n cael eu grymuso i lunio penderfyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sefydlu arweinyddiaeth ac atebolrwydd clir drwy Ddeddf Addasu i'r Hinsawdd newydd i Gymru, gan osod targedau gwydnwch sy'n gyfreithiol rwymol.
- Creu rôl Prif Swyddog Cyfranogi erbyn 2028 i ysgogi ymgysylltu â'r cyhoedd a chydlynu ar draws llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus.
- Integreiddio gwydnwch hinsawdd i gynllunio a buddsoddi fel bod pob prif benderfyniad seilwaith yn cyfrif am risgiau hinsawdd yn y dyfodol.
- Cydweddu cyllid â nodau gwydnwch hinsawdd drwy ddiweddaru systemau arfarnu a galw am Gronfa Addasu i'r Hinsawdd bwrpasol ar gyfer Cymru.
- Datblygu Hwb Dyfodol yr Hinsawdd i wella a rhannu data, offer a gwersi ar draws sectorau a chymunedau.

Mae CSCC yn pwysleisio na all llywodraeth yn unig addasu seilwaith i newid yn yr hinsawdd. Mae gan gymunedau, busnesau ac awdurdodau lleol i gyd ran i'w chwarae - gydag ymgysylltu cynhwysol yn ganolog i lwyddiant.

Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, ynghyd â dealltwriaeth Cymru o'r Argyfyngau Natur a Hinsawdd, yn dangos bod cydweithredu yn allweddol wrth ddiogelu cymunedau yn y tymor hir.

Wrth drafod y prosiect, dywedodd Steve Brooks, Comisiynydd Arweiniol CSCC:

“Mae'r adroddiad hwn yn dod â thystiolaeth, arbenigedd a phrofiad byw ynghyd er mwyn dangos sut y gall Cymru ddod yn fwy gwydn yn wyneb newid hinsawdd. Mae'r wyddoniaeth yn bendant – ni all seilwaith wrthsefyll hinsawdd yfory. Rhaid gweithredu ar fyrder – rhaid ymgorffori’r gallu i addasu o fewn gwaith cynllunio, rhaid cryfhau gwaith ymgysylltu, a rhaid meithrin hyder y cyhoedd. Trwy weithio gyda chymunedau, busnesau ac awdurdodau lleol yn ogystal â'r llywodraeth, gallwn ddiogelu cartrefi, swyddi a'r amgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau i ddod.”

Dywedodd Helen Armstrong, Comisiynydd Arweiniol CSCC ar y prosiect:

“Mae'r adroddiad hwn yn argoel o’r hyn sydd i ddod. Rydym am i Gymru yn 2100 fod yn lle ffyniannus i bobl a natur — ond rydym eisoes yn gaeth i dywydd eithafol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig atebion ymarferol i helpu Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus a darparwyr seilwaith i baratoi ar gyfer yr hyn sydd o'n blaenau, tra hefyd yn dangos sut y gall cymunedau amrywiol lunio'r dyfodol trwy weithgareddau creadigol, wedi’u cynllunio. Nid oes amser i'w golli - bydd gweithredu nawr yn llawer llai costus ac yn llawer mwy effeithiol nag aros nes ei bod hi'n rhy hwyr."

Dywedodd Caroline Star, Cyfarwyddwr Gweithrediadau SOIF: “Mae'r cydweithrediad hwn â CSCC wedi datgelu’r nerth sydd gan gymunedau i ddychmygu dyfodol i’w hunain ac i ddylanwadu ar y seilwaith sy'n eu cefnogi. Trwy ddulliau rhagweld cyfranogol, rydym wedi cyd-greu offer a all gryfhau gwytnwch, meithrin sgiliau a sicrhau bod penderfyniadau heddiw yn cefnogi Cymru yfory.

Mae'r adroddiad llawn, Storm Berffaith, ar gael yma:
https://nationalinfrastructurecommission.wales/cy/stormberffaith/

-DIWEDD-

Nodiadau i olygyddion:

Sefydlwyd CSCC yn 2018 i fod yn gorff cynghori annibynnol, anstatudol i Weinidogion Cymru. Ei brif bwrpas yw dadansoddi, cynghori a gwneud argymhellion ar anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol strategol tymor hwy Cymru dros gyfnod o 5–80 mlynedd.

Mae partneriaid CSCC ar yr adroddiad hwn yn cynnwys:

• Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange

- SEF Cymru
- Green Soul
- Arup